# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Dydd Mawrth, 8 Ionawr 2019

**PRESENT:** Councillor E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Councillors:**
J.M. Charles, P.M. Edwards, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones,
E.G. Thomas, D.E. Williams and J.E. Williams

**The following Officers were in attendance:**
P. Booth, Swyddog Trwyddedu
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 11.15 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr F. Akhtar, R.E. Evans, a C.A. Davies.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MISS JADE MARIE JONES.

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wrth y Pwyllgor fod Miss Jones wedi rhoi gwybod i'r swyddogion nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried cais Miss Jade Marie Jones am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan y cyfarfod nesaf.**

## 4. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR NIGEL ANDREW NOBES.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Nigel Andrew Nobes, 7 Heol y Bont, Castellnewydd Emlyn am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Nobes ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Nobes yn cael ei wrthod.

Ar hynny:

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gan y Pwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Nigel Andrew Nobes am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 5. DEDDF TRWYDDEDU 2003 CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gafwyd gan Mrs Mair Craig, ar ran Ystafelloedd Darllen Llansadwrn, yn gofyn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio tair ffilm fer a oedd yn ddi-ddosbarth yn flaenorol.

Roedd yr ymgeisydd yn bwriadu dangos y tair ffilm sef “Arctig - Môr o Blastig”, “Le Kov - Gwenno” a “The Last Little Show at the End of the Earth” cyn dangos ffilm dystysgrifedig yn y sinema gymunedol. Yn ogystal, roedd y safle'n bwriadu gweithredu'r sinema gymunedol o dan yr esemptiadau safle cymunedol a nodir ym mharagraff 6A o Atodlen 1 i Ddeddf Trwyddedu 2003.

Nododd y Pwyllgor y dylai'r ffilmiau a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant eu gwylio, a roddwyd naill ai gan gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i wneud yr argymelliadau gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilmiau, cafodd gyfle i wylio'r tair ffilm fer gan roi ystyriaeth i'r canllawiau ynghylch y graddau oedran a luniwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd gerbron,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gan y Pwyllgor**

- **5.1 y dylai'r ffilm “Arctig - Môr o Blastig” gael ei hystyried yn ffilm sydd dan gyfarwyddyd rhiant (PG);**
- **5.2 y dylai'r ffilm “Le Kov - Gwenno” gael ei hystyried yn ffilm sy'n addas i bob oed (U);**
- **5.3 y dylai'r ffilm “The Last Little Show at the End of the Earth” gael ei hystyried yn ffilm sy'n addas i bob oed (U).**

**6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 6ED RHAGFYR 2018.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 6 RHAGFYR 2018 yn gofnod cywir.**

**CHAIR** ______________________ **DATE** ______________________